**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/10613/24

Y Cynghorydd Beca Roberts
Cadeirydd y Cyngor

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

21 Ionawr 2025

Annwyl Beca,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr ynglŷn â chyfnewid tai cymdeithasol yng Nghymru a'r cynnig y mae Cyngor Gwynedd yn ei ystyried ynghylch eu polisi dyrannu tai cymdeithasol.

Ni fyddai'n briodol i mi wneud sylw ar y cynnig ei hun, gan ei fod yn fater i'r awdurdod lleol. O dan Ddeddf Tai 1996, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddyrannu tai, ac mae'n ofynnol iddynt gael cynllun dyraniadau i bennu blaenoriaethau ar gyfer dyrannu tai. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall ac ymateb i anghenion tai eu cymunedau lleol, ac i flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Wrth benderfynu ar eu cynllun penodol, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru roi sylw i Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol: Dyrannu Llety a Digartrefedd. Mae Pennod 3 o'r Cod yn darparu canllawiau ar ofynion awdurdodau tai i gael cynllun dyrannu ar gyfer pennu blaenoriaethau, ac ar gyfer diffinio'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth ddyrannu llety tai.

Rwy'n gobeithio bydd y wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i lywio eich diweddariad yng nghyfarfod nesaf y cyngor.

Yn gywir

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.